**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Annwyl Jayne,

3 Ionawr 2024

Ymchwiliad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni

Mae ein gwaith diweddar ar Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft Llywodraeth Cymru wedi elwa'n fawr o'ch cyfranogiad ac mae'n debygol bod ein dulliau o ymdrin â nifer o faterion trawsbynciol wedi'u cryfhau o ganlyniad i'n cydweithio. Roedd yr adroddiad yn nodi ein bwriad i wneud gwaith dilynol ar y mater ac rydym bellach mewn sefyllfa i roi manylion ichi.

Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â 'Gwarchod y dyfodol: y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio', ein hadroddiad yn 2022 ar ofal plant a chyflogaeth rhieni, yng ngwanwyn 2024. Yn ogystal ag archwilio'r cynnydd o ran rhoi argymhellion yr adroddiad hwnnw ar waith, byddwn yn archwilio i ba raddau y mae gofal plant yn diwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal plant y mae grwpiau demograffig penodol a grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru yn eu hwynebu. Gallwch weld y cylch gorchwyl llawn yn yr Atodiad.

Yn dibynnu ar argaeledd tystion ac ati, rydym yn bwriadu gwneud y gwaith hwn ar y dyddiadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 26 Chwefror 2024 | Dau banel tystiolaeth lafar |
| 4 Mawrth 2024 | Un panel tystiolaeth lafar |
| 11 Mawrth 2024 | Bore: sesiwn rhanddeiliaid yn y Senedd<br>Prynhawn: sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol |

Hoffem eich gwahodd chi, ac Aelodau eraill o'ch Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 17.49, i fod yn bresennol yn y sesiynau tystiolaeth lafar a gweithgareddau eraill sydd wedi'u cynllunio, ar y dyddiadau uchod ac mewn unrhyw gyfarfodydd eraill lle gallai trafodaethau sylweddol gael eu cynnal fel rhan o'r ymchwiliad. Pe bai hyn o ddiddordeb i chi neu unrhyw un o'ch Aelodau, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau erbyn 31 Ionawr 2024. Byddaf hefyd yn gofyn i'n Clerc gysylltu â'ch Clercod wrth i'r

trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad fynd rhagddo ac fel y gellir gwneud yr holl ystyriaethau ymarferol angenrheidiol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Atodiad: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ddechrau 2022, sef Gwarchod y dyfodol – Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio.
- I ba raddau y mae'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn rhoi darpariaeth o safon uchel sy'n cefnogi datblygiad plant, yn mynd i'r afael â thlodi plant ac yn cefnogi cyflogaeth rhieni. Pa newidiadau y gallai fod eu hangen i gyflawni'r canlyniadau hyn.
- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i ehangu ar y 12.5 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i bob plentyn dwy flwydd oed, a rhoi pwyslais ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- I ba raddau y mae digon o ofal plant ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru, a sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal plant y mae grwpiau demograffig penodol a grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru yn eu hwynebu.
- Pa ddulliau sydd ar gael i integreiddio'r gwaith o ddarparu gofal plant yng Nghymru, a sut y gellir lledaenu arfer gorau yn eang.
- Sut mae pwysau costau byw wedi effeithio ar ddarparwyr a'r gweithlu gofal plant, a pha effeithiau y mae'r rhain wedi'u cael ar y sector.
- Pa wersi y gellir eu dysgu o rannau eraill o'r DU, ac o arfer gorau yn rhyngwladol i wella polisi gofal plant yng Nghymru.
- Sut y mae angen ystyried rhwystrau ariannol a rhwystrau ymarferol wrth ddatblygu polisi gofal plant yn y dyfodol.